Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Llangadog

**Ysgol Llangadog**
**Heol Myddfai**
**Llangadog**
**Caerfyrddin**
**SA19 9HP**

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2022**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Chylch Meithrin Llangadog

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Llangadog |
| Categorï'r gofal a ddarperir | Gofal dydd llawn |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Dafydd Morgan |
| Person â gofal | Delyth Rees<br><br>Lowri Revitt |
| Nifer y lleoedd | 27 |
| Amrediad oedran y plant | 2-4 |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 2 dymor | 10 |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 5 tymor | 0 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i ddydd Gwener<br><br>08:00-18.00 |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydw |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae hwn yn wasanaeth sy'n gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Gweithredol' y Gymraeg, ac yn bwriadu bod yn wasanaeth dwyieithog neu'n dangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 01/09/2019 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 01/02/2012 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 25/01/2022 |

Mae Cylch Meithrin Llangadog wedi symud i'w safle newydd ers mis Mehefin, 2021. Mae'r Cylch wedi'i gofrestru o'r newydd. Daw lleiafrif y plant o gartrefi ble siaredir Cyrmaeg ar yr aelwyd.

## Diffyg cydymffurfio

Gwnaethom hysbysu’r darparwr bod angen gwelliannau mewn perthynas â'r rheoliadau canlynol, ac mae’n rhaid mynd i’r afael â hyn er mwyn bodloni’r gofynion cyfreithiol yn llawn.

**Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth**

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth. Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau.

Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwelliant a Gorfodi.

**Rheoliad 28: Addasrwydd Gweithwyr:** Nid yw’r unigolyn cyfrifol yn cydymffurfio â’r rheoliad hwn am nad yw wedi sicrhau ei fod yn cwblhau gwiriadau hanfodol ar ymarferwyr cyn iddynt ddechrau yn y gwasanaeth.

**Meysydd i’w Gwella**

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

**Rheoliad 20: Diogelu:** Nid yw’r unigolyn cyfrifol yn darparu'n briodol ar gyfer gofal, addysg a goruchwyliaeth.

**Rheoliad 31: Darparu Gwybodaeth:** Nid yw’r unigolyn cyfrifol wedi hysbysu AGC am ddigwyddiadau penodol o dan y rheoliad hwn.

## Argymhellion

A1 Darparu cyfleoedd cyson i blant gael llais i'w gweithgareddau ym mhob ardal o'r amgylchedd dysgu

A2 Darparu profiadau dysgu cyfoethog sy'n cefnogi plant i ddatblygu eu medrau yn fwriadus dros gyfnod

A3 Gwella a datblygu rolau arweinwyr wrth osod cyfeiriad strategol i'r lleoliad

A4 Mynd i'r afael â'r materion o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd yn ystod yr arolygiad

## Beth sy'n digwydd nesaf

Mae Prif Arolygydd ei Mawrhydi Estyn a Phrif Arolygydd Arolygiaeth Gofal Cymru o'r farn bod angen gwelliant â ffocws mewn perthynas â'r lleoliad hwn. Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn a / neu AGC yn monitro cynnydd y lleoliad.

## Prif ganfyddiadau

**Lles:**

Mae bron bob plentyn yn hapus ac yn datblygu'r ymdeimlad o berthyn yn llwyddiannus. Mae mwyafrif y plant yn dechrau dod yn hyderus ac yn annibynnol wrth dynnu eu cotiau ac arllwys dŵr neu laeth i'w cwpanau. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dechrau meithrin perthnasoedd cadarn gyda'u ffrindiau ac ymarferwyr, er enghraifft wrth eistedd wrth ymyl ymarferydd yn ystod amser byrbryd gan fwynhau'r profiad yn fawr.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn dechrau dod yn gyfarwydd â'r drefn ddyddiol. Er enghrhaifft, yn ystod amser byrbryd, mae tua hanner yn rhoi eu cwpanau a'u platiau mewn bowlen wag ar ôl gorffen. Ar y cyfan, mae bron bob un yn ymdopi'n dda â bod ar wahân o'u rhieni am fod cyfnodau pontio dyddiol priodol yn cydnabod eu hanghenion unigol. Mae rhan fwyaf y plant yn fodlon eu byd ac yn mynegi mwynhad yn eu chwarae rhydd, er enghraifft wrth gyfarch a chroesawu cymeriad o raglen deledu boblogaidd.

Mae gan y plant lais digonol wrth wneud dewisiadau ac mae llawer yn dewis pa ddiod maent yn ei dymuno yn ystod amser byrbryd yn hyderus. Yn ogystal, maent yn datblygu eu medrau i wneud penderfyniadau buddiol, er enghraifft wrth ddewis yr hyn maent am ei wneud yn ystod cyfnodau hir o chwarae rhydd. Fodd bynnag, nid yw plant yn cymryd rhan weithredol yn eu dysgu eu hunain. Er enghriafft, mae'r rhan fwyaf o'r plant yn mwynhau canu caneuon a rhigymau ond nid ydynt yn cael dewis achlysurol o ba ganeuon y maent yn dymuno eu canu mewn ystod amser cylch.

Ar y cyfan, mae'r rhan fwyaf o blant yn ymroi ac yn dangos parch at eiddo ac oedolion. Maent yn dilyn rheolau ac yn barod i rannu ag eraill, er enghraifft trwy rannu tegan gyda phlentyn arall ar ôl iddo ofyn amdano. Serch hyn, nid yw lleiafrif y plant yn gwrando'n ufudd ar gyfarwyddiadau bob tro, er enghraifft, aeth plant allan i'r dosbarth tu allan heb wrando ar gyfarwyddiadau ymarferydd.

Mae bron bob un plentyn yn datblygu eu medrau corfforol yn effeithiol wrth fwynhau'r profiadau ar yr offer a ddarperir ar eu cyfer yn y dosbarth tu allan. Mae llawer yn hyderus wrth ddringo'r wal ac yn rhyngweithio'n briodol wrth ymateb i ymarferwyr y tu allan.

Mae bron bob un o'r plant yn dangos diddordeb yn eu chwarae rhydd. Maent yn cael dewis digonol o gyfleoedd chwarae rhydd yn y dosbarth tu mewn a'r dosbarth tu allan, ac yn manteisio ar gyfleoedd i ymlacio yn ystod cyfnodau tawel.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Mae mwyafrif y plant yn gwneud cynnydd priodol yn unol â'u hoed a'u gallu yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad. At ei gilydd, mae eu medrau personol, cymdeithasol ac emosiynol yn datblygu'n gyson dros amser. Maent yn datblygu eu medrau'n effeithiol i fod yn unigolion sy'n dangos parch at ei gilydd ac oedolion.

Mae mwyafrif y plant yn datblygu eu medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn addas, yn aml mewn gweithgareddau sy'n cael eu harwain gan oedolyn. Ar y cyfan, maent yn datblygu eu medrau gwrando'n briodol wrth ymateb i gyfarwyddiadau ymarferwyr ac wrth wrando ar storïau cyfarwydd yn yr ardal ddarllen. Mae tua hanner ohonynt yn datblygu geirfa a phatrymau cystrawennol yn briodol, er enghraifft wrth ddefnyddio ansoddeiriau syml i ddisgrifio'r Gryffalo. Maent yn sgwrsio gyda'i gilydd ac oedolion yn briodol wrth adeiladu pont gan ddefnyddio arddodiaid fel 'ar ben' ac 'o dan' yn briodol wrth drafod lleoliad cerbydau yn teithio arni. Serch hyn, nid yw mwyafrif ohonynt yn datblygu eu gallu i ddatblygu eu geirfa a'u patrymau wrth sgwrsio am eu profiadau dysgu yn ddigymell yn ddigon effeithiol. Gwna leiafrif y plant gynnydd addas wrth ddatblygu eu medrau darllen ac ysgrifennu cynnar gan ddefnyddio sialc i greu marciau. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif y plant mwy abl yn gwneud digon o gynnydd yn eu medrau cyfathrebu Cymraeg heb gyfarwyddyd ac arweiniad cyson oedolyn.

Mae mwyafrif y plant yn dewis a defnyddio adnoddau mathemategol yn briodol wrth ddatrys problemau ymarferol, er enghraifft wrth adnabod a gosod siapiau 2 dimensiwn i'w lleoedd cywir wrth gwblhau jig-so. Mae'r lleiafrif yn datblygu eu medrau datrys problemau'n addas wrth gymhwyso eu medrau mathemateg yn y dosbarth tu allan. Er enghraifft, maent yn llenwi bwcedi gyda thywod gan drafod faint yn fwy neu lai o dywod fydd ei angen arnynt er mwyn i'r glorian gydbwyso. Mae mwyafrif yn cymhwyso eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn fedrus wrth drin arian a defnyddio'r til yn y Caffi Bwyta'n Iach. Nid yw lleiafrif y plant yn datblygu eu medrau iaith a chyfathrebu na mathemateg a rhif yn ddigon cyson mewn profiadau cyfoethog sy'n eu hannog i ddysgu'n gynyddol annibynnol, yn enwedig yn yr amgylchedd allanol.

Mae mwyafrif y plant yn datblygu eu medrau corfforol yn fedrus, yn enwedig wrth ddefnyddio adnoddau yn y dosbarth tu allan. Maent yn ymestyn yn uchel ac yn dyfalbarhau'n ddygn wrth afael yn y rhaffau wrth ddringo'r wal. Llwydda'r plant i addasu lleoliad eu dwylo a'u traed yn effeithiol wrth ddringo er mwyn arbrofi gyda gwahanol ffyrdd o gyrraedd brig y wal. Fodd bynnag, nid yw'r rhan fwyaf o blant yn datblygu eu medrau i arbrofi'n chwilfrydig tra'n archwilio syniadau newydd er mwyn dwysàu eu dealltwriaeth a'u gwybodaeth mewn themâu gwahanol. O ganlyniad, nid ydynt yn datblygu eu medrau iaith a chyfathrebu, ynghyd â'u medrau dysgu annibynnol ehangach, yn ddigon cadarn tra'n rhyngweithio'n ddigymell wrth ddysgu gyda'u ffrindiau.

**Gofal a datblygiad:**

Nid yw trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion, ac maent yn destun pryder. Nid oes gan y lleoliad broses recriwtio gadarn a diogel ac nid yw'r unigolyn cyfrifol wedi sicrhau bod yr holl wiriadau hanfodol wedi'u cwblhau, cyn i'r ymarferwyr ddechrau gweithio gyda'r plant.

Er bod gan y lleoliad drefniadau digonol ar gyfer goruchwylio plant, nid yw ymarferwyr bob tro'n sicrhau eu bod yn cadw llygaid digon manwl ac effeithiol ar y chwarae yn y dosbarth tu allan. Er enghraifft, nid yw ymarferwyr bob amser yn lleoli eu hunain wrth ymyl y wal ddringo er mwyn goruchwylio a chynorthwyo'r plant yn ddigonol. Mae ymarferwyr yn cynnal driliau tân ac yn eu cofnodi ond nid yw hynny'n digwydd yn ddigon rheolaidd i sicrhau bod y plant a'r ymarferwyr yn gyfarwydd â'r drefn yn yr adeilad newydd. Er bod gwelliannau amlwg diweddar yng nghofnodion presenoldeb plant, nid yw ymarferwyr bob tro'n cofnodi'r manylion yn ddigon cyflawn.

Mae bron bob un o'r ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn gartrefol ac yn hapus. Maent yn sicrhau bod bron bob plentyn yn ymgartrefu'n gyflym ac yn darparu cyfleoedd chwarae digonol iddynt. Mae'r ymarferwyr yn modelu rhyngweithiadau cadarnhaol, parchus a gofalgar ac yn meithrin perthnasoedd priodol gyda'r plant ac yn eu hadnabod yn dda. Er bod gan yr ymarferwyr wybodaeth sylfaenol am ddatblygiad plant ac yn rhyngweithio'n briodol, nid ydynt yn manteisio ar gyfleoedd i ddatblygu dealltwriaeth a medrau plant yn ddigon effeithiol.

Mae gan bron bob un ymarferydd ddealltwriaeth addas o'r polisi rheoli ymddygiad cadarnhaol. Er hynny, nid ydynt yn ei weithredu'n hollol effeithiol ar bob adeg, er enghraifft wrth roi cyfarfwyddiadau clir i'r plant.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Mae'r arweinydd yn cynllunio gweithgareddau dysgu addas i'r plant sy'n eu cymell i ddysgu, fel bo'n briodol. Mae'r cynlluniau'n nodi'r medrau mae plant yn eu datblygu ac yn amlinellu gweithgareddau dysgu sy'n meithrin y medrau hyn. Mae'r arweinydd yn cael ei chefnogi'n gyson gan y rheolwraig a'r ymarferwyr, wrth ddarparu syniadau gwahanol am weithgareddau sy'n fwy ysgogol wrth ennyn a chynnal diddordeb plant. Maent yn dechrau datblygu ardaloedd dysgu penodol fel mannau bwriadus i blant ddatblygu eu dealltwriaeth o wahanol agweddau, er enghraifft wrth iddynt baratoi a gweini bwyd maethlon yn y Caffi Bwyta'n Iach. Defnyddir yr ardd eco sydd ar safle'r ysgol yn addas fel cyfrwng achlysurol i ymestyn dealltwriaeth plant o bwysigrwydd parchu a gofalu am yr amgylchedd. At ei gilydd, nid yw gweithgareddau dysgu yn y dosbarth tu allan yn cael eu cynllunio'n ddigon bwriadus wrth gefnogi plant i gymhwyso eu medrau ar draws y meysydd dysgu. Yn ogystal, nid yw plant yn derbyn cyfleoedd digon bwriadus i gyfrannu'n annibynnol at weithgareddau a ddarperir ar eu cyfer. Mae hyn yn llesteirio eu brwdfrydedd a'u gallu i berchnogi dysgu eu hunain.

Mae ymarferwyr yn darparu profiadau a chyfleoedd dysgu a chwarae addas wrth ddatblygu medrau plant mewn gwahanol gyd-destunau. Er enghraifft, maent yn darparu helfa galonnau i'r plant yn yr ardd eco fel rhan o ddathliadau Santes Dwynwen. Caiff plant gyfleoedd addas i gymhwyso eu medrau creadigol wrth ddylunio a chreu calonnau eu hunain gan ddatblygu eu medrau motor manwl wrth ddefnyddio gefail i godi addurniadau lliwgar i'w haddurno. Mae ymarferwyr yn modelu geirfa a iaith fathemategol yn gyson wrth annog plant i ddisgrifio calonnau o feintiau gwahanol. Maent yn datblygu medrau rhif plant yn berthnasol wrth iddynt gyfateb nifer o smotiau ar galonnau i rifau penodol gan ddefnyddio adnoddau mathemategol i'w cefnogi'n effeithiol. Fodd bynnag, nid yw ymarferwyr yn darparu profiadau dysgu sy'n ddigon heriol wrth iddynt gefnogi plant i adeiladu ar wybodaeth a dealltwriaeth, a datblygu eu medrau dros gyfnod. O ganlyniad, nid yw plant yn derbyn cyfleoedd digon ymestynnol i'w cefnogi i gyflawni hyd orau eu gallu bob tro, yn enwedig y rhai mwy abl.

Mae ymarferwyr yn fodelau iaith effeithiol ac yn bwydo geirfa a phatrymau cystrawennol yn gyson, er enghraifft wrth iddynt ganu caneuon cyfarwydd gyda'r plant. Maent yn defnyddio tafodiaith yr ardal yn gwbl naturiol tra'n cefnogi plant yn eu dysgu, sydd yn ei dro yn cyfoethogi eu datblygiad iaith. Mae ymarferwyr yn cefnogi plant i ddefnyddio geirfa a phatrymau addas wrth iddynt ddefnyddio pypedau sydd o liw amrywiol yn yr ardal ddarllen, er enghraifft. Mae hyn yn cefnogi medrau gwrando a siarad plant yn briodol ac yn eu cefnogi i ddwysàu eu dealltwriaeth foesol a chymdeithasol wrth ddangos parch at bob plentyn ac oedolyn. Serch hyn, nid yw ymarferwyr yn holi'r plant yn ddigon treiddgar wrth eu hannog i sgwrsio'n fwyfwy annibynnol. Ar y cyfan, nid yw disgwyliadau ymarferwyr yn ddigon uchel wrth ddatblygu medrau iaith a chyfathrebu plant.

Wrth i ymarferwyr arsylwi ar blant yn datblygu eu medrau mewn profiadau dysgu trwy chwarae, maent yn dechrau ymyrryd yn amserol a sensitif er mwyn cefnogi plant i wneud cynnydd. Er bod gan ymarferwyr ddealltwriaeth addas o ddatblygiad medrau plant, nid ydynt yn defnyddio'r wybodaeth yn ddigon effeithiol er mwyn darparu gweithgareddau sy'n cefnogi plant i wneud cynnydd adeiladol dros gyfnod.

**Yr amgylchedd:**

Mae'r lleoliad wedi'i leoli mewn estyniad newydd ar safle ysgol y pentref. Mae rheolwyr yn darparu amgylchedd lled gartrefol i blant ac yn cydweithio er mwyn sicrhau bod y safle'n lân a diogel. At ei gilydd, maent yn sicrhau bod gwiriadau diogelwch yn eu lle ar gyfer y safle. Er enghraifft, maent yn gwirio bod y gât ar gau yn y dosbarth tu allan ac mae system electronig ar gyfer cloi'r prif ddrws yn cael ei gweithredu'n effeithiol.

Caiff ymwelwyr hanfodol fynediad hygyrch i'r adeilad ac mae gan y lleoliad drefniadau da ar waith i leihau'r risg o Covid-19, er enghraifft trwy ddiheintio cyfarpar yn drwyadl. Cyn i ymwelwyr hanfodol gael mynediad, maent yn cynnal asesiad risg,

yn gofyn i bob ymwelydd ddiheintio ac i lofnodi’r llyfr ymwelwyr. Maent yn cadw cofnodion glanhau yn ddyddiol.

Mae rheolwyr yn gweithredu trefniadau cadarn i sicrhau bod y plant yn gadael yr adeilad yn ddiogel gyda rhiant neu ofalwr sy’n wybyddus iddynt.

Mae rheolwyr ac ymarferwyr yn cwblhau asesiadau risg generig digonol ac mae’r ymarferwyr yn cwblhau rhestr wirio risgiau ar gyfer pob ardal yn ddyddiol. Er hyn, nid yw rheolwyr bob tro’n mynd ati’n rhagweithiol i adnabod risgiau newydd yn ddigon amserol er mwyn lleihau risgiau posibl i blant. Er enghraifft, sylwodd y rheolwyr ar beryglon posibl y bocsys plastig a oedd yn y dosbarth tu allan a’u symud oddi yno ar ôl i ddamwain ddigwydd.

Mae rheolwyr yn sicrhau amrywiaeth ddigonol o adnoddau glân a phriodol o ansawdd da ar gyfer y plant ac maent yn cael eu cadw’n dda. Er bod y dosbarth tu allan yn cynnwys amrywiaeth dda o gyfarpar fel wal a ffrâm ddringo, ardal fathemateg, cegin fwd a llwyfan, nid yw ymarferwyr yn defnyddio’r ardal i’w llawn botensial nac yn manteisio’n llawn ar yr adnoddau hyn wrth gynllunio profiadau dysgu a chwarae'r plant. Mae hyn yn cyfyngu ar gyfleoedd i sbarduno plant a datblygu eu medrau ar draws y meysydd dysgu.

At ei gilydd, caiff nifer o adnoddau eu storio y tu hwnt i gyrraedd plant yn y brif ystafell. O ganlyniad, nid yw mwyafrif yr ardaloedd yn cynnig cyfleoedd digon cyson ac ymestynnol i blant ddatblygu eu medrau annibynnol yn llawn. Nid yw’r amgylchedd hefyd yn darparu cyfleoedd pwrpasol i blant archwilio’n fedrus wrth gymhwyso eu medrau mewn themâu dysgu sydd o ddiddordeb iddyn nhw.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth:**

Ar y cyfan, mae trefniadau arweinyddiaeth yn aneglur ac aneffeithiol. Mae’r arweinydd a’r rheolwraig yn cyflawni eu dyletswyddau arwain yn briodol ac mae lles a gofal plant yn flaenoriaeth iddynt. Fodd bynnag, nid yw'r unigolyn cyfrifol yn cefnogi arweinwyr i weithredu eu gweledigaeth yn ddigon gweithredol a chydlynus. Yn ogystal, nid yw trefniadau rheoli dyddiol y ddarpariaeth yn cael effaith ddigon cadarn ar yr addysgu a'r dysgu. Mae hyn yn llesteirio gallu ymarferwyr i ddatblygu’r ddarpariaeth yn ddigon bwriadus ar ei safle newydd.

Mae’r arweinydd a’r rheolwraig yn gwerthuso ac adolygu ansawdd y ddarpariaeth yn addas wrth iddynt anelu at gyfoethogi profiad plentyn. Maent yn nodi agweddau i’w datblygu ac yn gweithredu arnynt fel bo’n briodol, er enghraifft wrth archebu adnoddau er mwyn datblygu’r dosbarth tu allan. Fodd bynnag, nid yw trefniadau monitro a gwerthuso yn ddigon cadarn. O ganlyniad, nid ydynt yn blaenoriaethu agweddau i’w datblygu nac yn eu gweithredu’n ddigon amserol wrth gefnogi plant i wneud cynnydd yn eu dysgu.

At ei gilydd, nid yw arweinwyr yn adrodd am gyfeiriad strategol nac am ddatblygiadau’r ddarpariaeth i’r unigolyn cyfrifol yn ddigon effeithiol. Nid yw’r unigolyn cyfrifol yn mynychu cyfarfodydd ffurfiol yn ddigon cyson sy’n golygu nad oes ganddo wybodaeth ddigon manwl am berfformiad y lleoliad. Mae hyn yn llesteirio medrau arweinwyr ac ymarferwyr i weithredu trefniadau gwella yn ddigon effeithiol.

Mae arweinwyr yn cefnogi ymarferwyr i gydweithio fel aelodau effeithiol o dîm wrth ddarparu gofal ac addysg i blant. Maent yn dechrau annog ymarferwyr i gyfrannu’n gyson i’r ddarpariaeth, er enghraifft wrth gofnodi syniadau am weithgareddau dysgu am thema'r gofod. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar hyder pob ymarferydd i gyfranogi’n fwyfwy rhagweithiol at ddatblygu profiadau dysgu plant ymhellach. Mae cyfleoedd dysgu proffesiynol diweddar yn dechrau cefnogi ymarferwyr i ddwysàu eu gwybodaeth am agweddau penodol o’r addysgu a'r dysgu, a’r cwricwlwm yn ehangach, er enghraifft wrth addasu’r ddarpariaeth tra’n dilyn trywyddau dysgu plant. At ei gilydd, mae ymarferwyr yn defnyddio adnoddau'n addas wrth ddiwallu anghenion dysgu plant ac yn archebu rhai newydd wrth wario cyllid grantiau’n ddarbodus. Mae ymarferwyr yn dechrau datblygu ardaloedd yn y dosbarth tu mewn a thu allan wrth geisio cymell a sbarduno plant i ddysgu mewn amgylchedd dysgu ysgogol.

Nid yw arweinwyr yn darparu gwybodaeth i Arolygiaeth Gofal Cymru am newidiadau staffio.

Mae aelodau’r pwyllgor yn trefnu gweithgareddau cymdeithasol wrth hyrwyddo’r ddarpariaeth yn y gymuned leol ac yn casglu arian yn llwyddiannus i gefnogi’r addysgu a’r dysgu, er enghraifft wrth drefnu ffair Nadolig. Mae’r aelodau’n awgrymu syniadau ymarferol i arweinwyr wrth ddatblygu trefniadau cyfathrebu gyda rhieni ymhellach, er enghraifft wrth gynnig cyfrwng syml o rannu gwybodaeth am brofiadau dysgu a chynnydd mae eu plant yn eu cyflawni yn fwy cyson.

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 29/03/2022